



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut i ddiogelu'ch adar rhag Ffliw'r Adar



Mae Ffliw'r Adar yn glefyd sy'n effeithio ar bob math o ddofednod gan gynnwys ieir, hwyaid a gwyddau. Mae straen ddifrifol o'r clefyd, H5N8 newydd ei darganfod mewn adar gwyllt ac adar caeth yn y DU. Nod y canllaw hwn yw helpu ceidwaid heidiau dofednod bach i edrych ar ôl eu hadar tra bod y parth atal yn ei le.

Sut mae Ffliw'r Adar yn lledaenu

Mae Ffliw'r Adar yn gallu cael ei basio o adar gwyllt i ddofednod, gan wneud iddyn nhw fynd yn sâl a marw. Mae'n gallu cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol o aderyn i aderyn neu drwy'r amgylchedd, er enghraifft mewn baw adar gwyllt.

I leihau'r perygl o ledaenu Ffliw'r Adar o aderyn i aderyn, mae'n angen cyfreithiol ar hyn o bryd cadw'ch adar dan do neu o leiaf eu cadw nhw ac adar gwyllt ar wahân.

Mae hyn yn golygu os ydych yn cadw dofednod, gan gynnwys ieir, hwyaid neu wyddau, hyd yn oed fel anifeiliaid anwes, rhaid i chi gymryd camau i'w rhwystro rhag dod i gysylltiad ag adar gwyllt a'u hamddiffyn rhag y clefyd hwn sy'n gallu lladd.

Mae'r perygl i iechyd pobl yn fach iawn ac nid yw Ffliw'r Adar yn peryglu bwyd.

Gwarchod eich dofednod

Le gallwch, symudwch eich adar i mewn i adeilad addas fel sied neu adeilad fferm arall sydd wedi'i addasu i'w cadw, neu i adeilad dros dro fel pentis (lean-to) neu dwnnel polythen. Rhowch netin dros agoriadau i rwystro adar gwyllt rhag dod i mewn a chael gwared ar unrhyw sylweddau peryglus.



Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau lles eich adar tra'u bod dan-do. Cadwch nhw'n gyfforddus a thawel.

- Cofiwch archwilio eich adar yn rheolaidd am arwyddion o glefyd neu broblemau lles a chadwch adar iach ar wahân i adar sydd â chlefyd neu broblemau. Gofynnwch am gyngor gan eich milfeddyg.
- Os ydych yn cadw sawl math o adar, cadwch ieir neu dyrchwyr ar wahân i hwyaid a gwyddau. Archwiliwch yr adar yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn iach a bod digon o fwyd, dŵr a sarn sych (deunydd fel gwellt) ganddynt.
- Cadwch yr amgylchedd yn ddiddorol i leihau'r perygl o bigo plu. Rhowch sarn sych, byrnau gwellt, clwydi a phethau fel cabaets iddyn nhw. Taenwch fwyd/grawn ar y llawr a rhowch graean yn y sarn i annog yr adar i grafu'r llawr.
- Sicrhewch fod gan eich adar ddigon o olau naturiol ble'n bosib ac nad yw'n dywyll trwy'r amser. Dylech ddilyn patrymau arferol dydd a nos.
- Ystyriwch roi atchwanegiadau maeth yn y dŵr i gadw'r adar yn dawel.
- Mae parasitiaid croen fel y gwiddonyn coch yn gallu bod yn broblem i adar sy'n cael eu cadw dan do a gall wneud yr adar yn anesmwyth. Holwch eich milfeddyg am gyngor.

Lleihau'r perygl o heintio

Os nad oes gennych adeilad addas i gadw'ch adar, neu os bydd lles yr adar yn dioddef o'u cadw dan do, cymerwch y camau synhwyrol hyn i'w cadw rhag dod i gysylltiad ag adar gwyllt.

Dylech gymryd y camau hyn i leihau'r perygl o heintio'r adar trwy'r amgylchedd, er enghraifft trwy faw adar gwyllt, hyd yn oed os ydych yn cadw'ch adar dan do.

- Cadwch fwyd a dŵr y tu fewn lle na fyddmodd eu llygru. Bwydwch yr adar y tu fewn a pheidiwch â gadael iddyn nhw fynd at ddŵr llonydd.
- Gwnewch bopeth i beidio â denu adar gwyllt gan sicrhau nad oes unrhyw ddŵr llonydd, bwyd wedi sarnu ac ati. ac ystyriwch ddefnyddio offer dychryn adar.
- Os ydy'ch adar yn aros tu allan, gallwch greu uned gaeedig dros dro o netin lle nad yw adar gwyllt yn gallu mynd i mewn iddo.
- Ceisiwch osgoi symud eich adar i mewn ac allan o'r uned a glanhewch a diheintiwyd eich esgidiau cyn mynd iddi ac ar ôl bod ynddi.



- Cadwch safle byw eich adar yn lân ac yn daclus a chael gwared ar fwyd sydd wedi sarnu.

Arwyddion Ffliw'r Adar

Mae'r arwyddion yn cynnwys colli awydd bwyta, pennau wedi chwyddo a phroblemau anadlu. Os ydych yn credu bod eich adar yn dioddef o Ffliw'r Adar, ffoniwch yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar unwaith ar **0300 303 8268**.

Manylion Pellach

Cewch fwy o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru **yma**.

Cofrestr Dofednod

Mae pob ceidwad dofednod, yn cynnwys yr rhai sydd a llai na 50 o adar yn cael eu annog i ddarparu manylion o'u ddiadellau i'r Gofrestr Dofednod. Mi fydd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu cael eu cysylltu ar unwaith yn ystod achos o glefyd adar er mwyn diogelu eu diadellau yn gynnar.